

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 16eg Ebrill 2019

Presennol: Cyng. Sharon Wyn Parry (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

Cyng. William Victor Owen

Ymddiheuriadau: Cyng. Beryl Salisbury

2. **Datganiad o ddiddordeb:** - Cyng. Gordon Owen – eitem 5.2 HHP/2019/36 - Fron Deg, Holyhead Road.
3. **Cofnodion cyfarfod 19eg Mawrth 2019**
Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gwilym Jones.)
4. **Materion yn codi o'r cofnodion:**
 1. Cae Chwarae – dim i'w adrodd
 2. Hysbysfwrdd –. Cytunwyd i godi hysbysfwrdd wrth y Neuadd Bentref gan na fyddai CSYM yn caniatáu iddo gael ei godi ar Stad yr Hen Ysgol.
 3. Lloches Fws – Stad Tre Ifan - roedd y mater hwn yn parhau.
 4. Seddi Gwag.
Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn cais Mrs Siân Enfys Jones am gyfethol i sedd wag ar y Cyngor.
 5. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion –
Cyfieithu - roedd y clerc wedi cysylltu â chyfieithydd a fyddai'n fodlon mynychu am £28 yr awr ynghyd ag amser teithio (cyfanswm o tua 3 awr) ynghyd â chostau teithio o Lanbedrgoch. Byddai'r offer yn cael ei logi gan Fenter Môn am £25 y tro ond byddai'n rhaid ei gasglu a'i ddychwelyd i Langefni.
5. **Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**
 - 5.1 Penderfyniadau cynllunio - dim
 - 5.2 Ceisiadau Cynllunio –
HHP/2019/36 - Fron Deg, Holyhead Road, Caergeiliog – wedi ei dynnu'n ôl.

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

6. Gohebiaeth:

1. Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad mis Chwefror 2019
2. Prosiect Llif Llanw MORLAIS - cytunwyd y dylid gwahodd y tîm prosiect i fod yn bresennol ar 21 Mai 2019.
3. Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned – cofnodion 14.3.2019
4. Bwletin Un llais Cymru
5. Gweithredu Diwydiannol Biffa 22-28/4/19
6. Adolygiad y Pwyllgor Safonau – Cyflwynwyd: adroddiad o adolygiad o gofrestrau diddordeb yr aelodau mewn sampl o'r Cyngorau Tref a Chymuned, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth gyda'r Cod Ymddygiad. Ymgais oedd y broses hon i geisio cynorthwyo'r Cyngorau Tref a Chymuned drwy rannu arfer dda ac amlygu materion cyffredin y mae angen eu gwella.

7. Materion Ariannol

Yn y banc ar 16.4.2019 Cyfrif Cyfredol £8746.92 Cyfrif Cadw £3,928.64

8. Taliadau i'w gwneud

| | | | |
|---------------|---------|------------|--------|
| Cyflog Mawrth | £183.50 | HMRC (TWE) | £45.90 |
| Vision ICT | £150 | GMS | £54.00 |

Cytunwyd i dalu'r rhain.

9. Cyfrifon 18/19

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad Ariannol am y flwyddyn 2018/19 ynghyd â Chysyniadau a Datganiadau Banc. Byddai'r clerch yn gwneud trefniadau iddynt gael eu harchwilio cyn gynted â phosibl.

11. Unrhyw fater arall:

Nodwyd nad oedd y bin ailgylchu dillad a osodwyd ar iard cwmni Greenough wedi cael ei gasglu ers peth amser. Byddai'r clerch yn gwneud ymholiadau.

Mynegwyd pryder am gyflwr y lon heibio Ffordd Cerrig Mawr, Llanfihangel yn Nhowyn, byddai'r clerch yn gwneud ymholiadau gyda CSYM yn y lle cyntaf.

12. Cyfarfod Nesaf – 21 Mai 2019.

Llofnod.....Cadeirydd.....